Bu nifer ohonom yn Eisteddfod Sir yr Urdd yn y Neuadd Fawr ar Benglais y Sadwrn cyntaf o'r gwyliau. Cylch Llanbedr-pont-Steffan oedd yn gyfrifol eleni am drefnu'r Eisteddfod Sir ac un a fu'n gefnogol iawn i'r Urdd yn y cylch hwnnw cyn iddi symud a bod yr un mor gefnogol yng nghylch Aberystwyth a wahoddwyd i fod yn Llywydd y Dydd yn yr Ŵyl sef Mrs. E. A. Evans o Ysgol Penrhyn-coch. Fel y dywedwyd dydd yr Eisteddfod nid person sy'n gweiddi am Gymru yw Mrs. Evans ond un sy'n gweithio drosti. Mae wedi dal sawl swydd yn y cylch hwn ac wedi gweithio'n galed trwy gydol yr amser dros y mudiad. Llongyfarchion iddi ar gael ei hanrhydeddu fel hyn.

Balch ydym o ddeall bod un o'n disgyblion, Sioned Thomas, yn teimlo'n llawer gwell ar ôl ei salwch. Bu am gyfnod yn Ysbyty Bronglais yn derbyn triniaeth. Daliwch ati i gryfhau Sioned.

Mae'r myfyriwr a fu gennym yn ystod y tymor wedi dychwelyd yn awr i'r Coleg yn Aberystwyth. Bu'n hynod o garedig wrth y plant ar hyd yr amser a da yw cael ar ddeall ei fod wedi ei apwyntio'n athro mewn ysgol yn Swydd Dyfnaint a bydd yn dechrau yno ym Medi. Llongyfarchwn ef a dymunwn y gorau iddo hefyd.

Balch oeddem o weld bod Lynwen Jenkins un o'n cyn-ddisgyblion wedi ei gwneud yn gapten Clwb Nofio Aberystwyth a'r Cylch. Llongyfarchion cynnes iddi. Nid dyma'r tro cyntaf, wrth gwrs, iddi ddal y swydd hon.